| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **19 Medi 2013** |
| **AELOD CABINET:** | **Cynghorydd R H Wyn Williams** |
| **TEITL:** | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2012-13**<br>**Adrodd ar effeithlonrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol 2012-13** |
| **AMCAN:** | **Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR:** | **Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Statudol a Phennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden** |

## 1. <u>Cyflwyniad</u>

1.1 Mae’n ofyn statudol i’r Cyngor gyhoeddi ‘Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol’ sydd yn adrodd ar effeithlonrwydd Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.

1.2 Rhaid i'r adroddiad fod mewn iaith hawdd i’w ddeall gan ddweud wrth drigolion a chyfranddalwyr pa mor dda rydym yn meddwl mae’r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn perfformio yng Ngwynedd. Ar ddiwedd y broses, mae’n ddisgwyliad cyflwyno’r adroddiad i Aelodau’r Cyngor.

## 2. <u>Y gyfundrefn</u>

2.1 Cyflwynwyd y gyfundrefn hon yn 2010. Mae’n unigryw i Gymru ac i Wasanaethau Cymdeithasol ac mae gofyn i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol dderbyn cyfrifoldeb personol i adrodd yn gyhoeddus ar berfformiad y gwasanaethau ynghyd a’r profiad o ddarparu gwasanaethau mewn cyd-destun lleol.

2.2 Gofynnir i’r Cyfarwyddwr Statudol ystyried yr ystod wybodaeth a phrofiadau sy’n cael effeithio ar allu’r Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau dibynadwy a chynaliadwy o’r safon uchaf.

2.3 Er bod hon yn gyfrifoldeb penodol ar y Cyfarwyddwr Statudol rhaid cyflawni’r gwaith a’r dasg mewn ffordd sy’n adlewyrchu a grymuso’r cydweithio sy’n rhan annatod o’r maes.

2.4 Mae 4 cam i’r broses, sef:

**i. Yr Adroddiad Blynyddol (a gyflwynir fel Atodiad 1).**
Dogfen gyhoeddus sy’n crynhoi barn y Cyfarwyddwr ar effeithlonrwydd y gwasanaeth yn ystod 2012-13 gan nodi’r blaenoriaethau er sicrhau gwella gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.

**ii. Dadansoddiad o effeithiolrwydd Gwasanaethau**
Proses manwl o hunan asesu effeithlonrwydd y gwasanaeth, gan gytuno ar ddadansoddiad ac adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae angen sicrhau fod cyfranddalwyr wedi cael cyfle i herio’r asesiad. Nid yw’n ddogfen gyhoeddus ond ar gael i bawb sydd eisiau’i gweld.

**iii. Llwybr Tystiolaeth**
Rhaid casglu tystiolaeth sydd yn cyfiawnhau'r asesiad a'r dyfarniad yn yr hunan asesiad.

**iv. Cynllun busnes**
Llunnir y cynllun busnes er mwyn cyflawni'r gwelliannau a nodir yn yr adroddiad.

## 3. Argymhelliad

3.1 Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad.